# Yr Ail Gynulliad – Cyfarfod Llawn

## Agenda (220)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Medi 2006**
**Amser: 2.00pm**


**Eitem 1: Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Eitem 2: Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**Eitem 3: Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

**Eitem 4: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 2006 i Brif Weinidog Cymru**

**Eitem 5: Dadl ar Flaenraglen Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Eitem 6: Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio**

**Eitem 7: Dadl fer**


....................................

## Eitem 1: Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

....................................

## Eitem 2: Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

....................................

## Eitem 3: Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

....................................

## Eitem 4: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 2006 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3205 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn a than Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Rhag Tân) 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

*Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y cânt eu dirprwyo ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.*

**Dogfen Ategol**
**Gellir canfod copi o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Rhag Tân) 2005 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20051541.htm.**

**.................................**

## Eitem 5: Dadl ar Flaenraglen Llywodraeth Cynulliad Cymru

**NDM3206 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi Blaenraglen Waith Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i nodwyd gan y Trefnydd yn Natganiad Ysgrifenedig y Cabinet, a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad, ddydd Mercher 13 Medi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal ar wahân:
**(1+2+3+4+5+6+7+8)**
**(9+10+11+12+13+14+15)**

**Gwelliant**

**1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran yr iaith Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt Deddf Llywodraeth Cymru."*

**Gwelliant**

**2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr Adolygiadau o Ofal Eilaidd ledled Cymru."*

**Gwelliant**

**3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Ambiwlans."*

**Gwelliant**

**4 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru i ddarparu gofal personol rhad ac am ddim i bobl anabl."*

**Gwelliant**

**5 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru i ddarparu brecwast ysgol rhad ac am ddim i bob plentyn yng Nghymru."*

**Gwelliant**

**6 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar effaith codiadau yn y dreth gyngor dros yr wyth mlynedd diweddaf ar drethdalwyr yng Nghymru, yn enwedig y bobl sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau."*

**Gwelliant**

**7 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfathrebu a chysylltiadau â'r cyfryngau."*

**Gwelliant**

**8 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar ddiddymu taliadau Tir Mynydd."*

**Gwelliant**

**9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod maint pob dosbarth ysgol gynradd yn cael ei ostwng i 25 o blant."*

**Gwelliant**

**10 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno gofal cartref am ddim i bobl anabl."*

**Gwelliant**

**11 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno clustogfa 500 metr ar gyfer safleoedd glo brig."*

**Gwelliant**

**12 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 1 a 2."*

**Gwelliant**

**13 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno Strategaeth Swyddi Gwyrdd ddrafft ar gyfer dadl yn y siambr."*

**Gwelliant**

**14 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno, ar gyfer dadl yn y siambr, gynigion i ailsefydlu'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth."*

**Gwelliant**

**15 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno, ar gyfer dadl yn y siambr, gynigion i ailsefydlu Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post."*

**Dogfen Ategol**
**Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan y Trefnydd**

……………………………..

## Eitem 6: Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio

**NDM3204 Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheolau Sefydlog 6.6 (vi) a 12.2 (iv) yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y cyfnod 2005-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Gorffennaf 2006.

**Dogfen Ategol**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y cyfnod 2005-2006**

……………………………..

## Eitem 7: Dadl fer

**NDM3203 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Remploy – Y Ddadl dros Gefnogi

……………………………..

# Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 26 Medi 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**